# Bwletin Menter Môn

mentermon.com
post@mentermon.com

Croeso i'n bwletin newydd. Dyma ble byddwn ni'n dod a'r newyddion diweddaraf i chi am Menter Môn, ein prosiectau a'n gwaith ar draws Ynys Môn, Gwynedd a thu hwnt. Cysylltwch gyda ni am ragor o wybodaeth amdanom ni neu unrhyw un o'n prosiectau. Mae ein gwaith yn syrthio i mewn i dair prif thema:

**Cymuned** **Economi** **Ynni**

## ARFOR Yn Cefnogi Teuluoedd I Ddychwelyd

Bu i brosiect Llwyddo'n Lleol dderbyn sylw mawr yn ddiweddar; o fod ar dudalen flaen papurau newydd i ymddangos ar Gogglebocs Cymru!

Yn fis Hydref cyhoeddodd Llwyddo'n Lleol eu bod yn cynnig cefnogaeth ariannol o hyd at £5,000 i deuluoedd sydd am ddychwelyd i ranbarth ARFOR, drwy'r Elfen Ymgartrefu. Bydd y gefnogaeth ariannol yn cynorthwyo teuluoedd a chostau ymarferol wrth iddynt ystyried dychwelyd i Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd neu Ynys Môn. Mae'r cymorth hwn yn gallu cynnwys help i dalu am gostau cludiant, costau rhent neu forgais, costau gwarchod plant, neu wersi Cymraeg hyd yn oed.

Fe aeth y stori yn 'viral' gyda sylw yn y wasg genedlaethol ac ar draws y cyfryngau cymdeithasol, gan arwain at dros 100 o ymholiadau gan deuluoedd yn cynllunio symud yn ôl adra. cadwch lygad allan dros y misoedd nesaf i ddilyn eu hanesion wrth iddynt gymryd y naid a symud yn ôl adra!

**Dilynwch yma am yr hanesion diweddaraf.**



## Noson Gwobrau Cymunedol Menter Môn



Gyda chymaint o grwpiau cymunedol wedi'u cefnogi drwy brosiectau Balchder Bro a Grymuso Gwynedd, be well na noson wobrwyo i ddathlu llwyddiant y bobl hyn?

Nos Wener yr 11eg o Hydref daeth degau o bobl ynghyd yng Ngaleri Caernarfon i ddathlu llwyddiannau amrywiaeth o grwpiau cymunedol. Gyda chyfanswm o saith gwobr ar draws y ddau brosiect, roedd digonedd o gyfle i ddathlu!

**Darganfyddwch yr enillwyr i gyd yma.**





## Noson Gwobrau Busnes Menter Môn

Cafwyd hefyd lu o wobrau busnes eu cyflwyno yn ychwanegol i'r rhai cymunedol yn ystod Noson Gwobrau Menter Môn. Cyflwynwyd y gwobrau hyn gan brosiect Hwb Menter, prosiect sydd yn cefnogi unigolion ar draws Gwynedd a Ynys Môn i sefydlu a datblygu busnesau.

Roedd y gystadleuaeth i gyrraedd y brig yn un o'r pedwar categori yn un brwd! Llongyfarchiadau enfawr i'r ennillwyr:

Kico's Dessert Bar - Busnes Newydd y Flwyddyn Ynys Môn

Cymro Vintage - Busnes Newydd y Flwyddyn Gwynedd

Arfon Timber Frames - Rhyfelwr Eco

Klaire Tanner - Arloeswr Arbennig

**Gwyliwch fideo o'r noson yma.**

## Cyngor Yn Arwain Y Ffordd Ar Fwydlenni Cynnyrch Cymreig

Gyda chefnogaeth gan fenter Bwyd i Ysgolion Cymru, Larder Cymru, roedd Caerffili yn un o chwe sir - a oedd hefyd yn cynnwys Wrecsam, Sir y Fflint, Ynys Môn, Gwynedd, a Chaerdydd - i ddefnyddio cynhwysion mwy lleol yn eu bwydlenni cinio Dydd Gŵyl Dewi.

Nawr, yn dilyn llwyddiant y fenter – sy'n cael ei weinyddu gan Menter Môn a'i chefnogi gan Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru – mae Cyngor Caerffili bron wedi dyblu'r swm y mae'n ei wario ar gynnyrch o Gymru. Ymhlith y cwmnïau sy'n cyflenwi'r ysgolion mae cwmniau megis Llaeth Y Llan, Castell Howell a Ellis Eggs.

Gallai model Caerffili nawr gael ei efelychu gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'r gwaith yma yn rhoi hwb i'r economi leol, cryfhau'r gadwyn gyflenwi wrth hyrwyddo cynaliadwyedd a helpu teuluoedd ar adeg heriol yn economaidd.

**Darllenwch fwy yma.**



# Y Cam Nesaf Ar Gyfer Monitro Bywyd Gwyllt

Mae bwi casglu data sy'n gysylltiedig â chynllun ynni llanw Morlais ger Ynys Môn yn cychwyn ar ei ail daith yr wythnos hon wedi iddo gael ei lansio oddi ar yr arfordir ger Caergybi. Mae'r bwi yn rhan o waith ymchwil sylweddol er mwyn sicrhau bod mamaliaid ac adar morol yn cael eu diogelu wrth i Morlais ddod yn weithredol o 2026.



Mae cam nesaf y datblygiad wedi'i gynllunio ar gyfer 2025, pan fydd offer yn cael ei addasu i'w defnyddio ar dyrbin sydd wedi'i osod ar wely'r môr. Bydd y bwi yn aros yn ei leoliad ar y môr am 12 mis, a'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu yn cael ei rannu â datblygwyr tyrbinau Morlais a'r diwydiant ynni llanw yn ehangach i gefnogi twf y sector. Bydd gwaith ymchwil a chasglu data amgylcheddol yn parhau drwy gydol oes prosiect Morlais.

**Darllenwch y stori lawn yma.**

## Llwyddiant i Morlais Yng Ngwobrau CEW Cymru






Cyrhaeddwyd prosiect ynni llanw Morlais, rownd derfynol gwobrau Adeiladu Rhagoriaeth (CEW), a gynhaliwyd yn Llundain mis Tachwedd. Ar ôl ennill mewn dau gategori, sef ‘Gweithredu dros Hinsawdd’ a ‘Prosiect Seilwaith y Flwyddyn’ yn y rownd Gymreig, bydd Morlais yn cynrychioli Cymru ar lwyfan Brydeinig, gan gystadlu yn erbyn prosiectau seilwaith mawr o bob cwr o’r DU.

Morlais yw'r unig brosiect ynni adnewyddadwy i gyrraedd y rownd derfynol ac mae'n un o ddim ond dau brosiect o ogledd Cymru. Mae Morlais eisoes yn sefyll allan fel y cynllun ynni llif llanw mwyaf yn Ewrop sydd wedi ei ganiatáu, gyda chapasiti cynhyrchu posibl o 240MW. Unwaith yn weithredol, bydd yn defnyddio cerrynt llanw oddi ar arfordir Ynys Môn i gynhyrchu trydan adnewyddadwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil a chefnogi swyddi lleol a thwf economaidd.

Dywedodd John Idris Jones, Cadeirydd Bwrdd Morlais:
"Rydym wrth ein boddau ein bod wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Adeiladu Rhagoriaeth 2024. Mae'r gydnabyddiaeth yma yn pwysleisio’r effaith y gall Morlais ei gael fel datblygiad cynaliadwy. Rydym yn falch iawn o gynrychioli Ynys Môn a Chymru yn Llundain, ac yn gobeithio ysbrydoli eraill gyda'n hymrwymiad i ddyfodol mwy gwyrdd ac wrth greu cyfleoedd economaidd sydd o fudd i'n cymunedau lleol."

**Darllenwch y stori lawn yma.**